WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Iwan Davies
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Bodlondeb
Conwy
LL32 8DU

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 21 Medi 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 509A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Rhif Ffôn** | |
| **E-bost** | |
| **Tudalennau** | **1** o **8** |

Annwyl Iwan

## Asesiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## Nid wyf yn gallu nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gynllunio gwelliant o dan y Mesur gan nad yw'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella ar gyfer eleni

Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012, penododd y Cyngor Gabinet newydd. Er nad yw arweinwyr y Cyngor wedi newid, mae cyfansoddiad y Cabinet wedi newid. Er hyn, clymblaid o bedwar grŵp ydyw o hyd gyda grŵp y Ceidwadwyr yn ffurfio'r wrthblaid. Mae'r Cyngor wrthi'n adolygu ei Amcanion Gwella er mwyn gweld a all gyflawni pob un ohonynt erbyn 2016-17 ac mae'n ystyried cyfres o senarios ariannu er mwyn pennu eu blaenoriaeth gymharol. Mae'r senarios yn amrywio o newidiadau cyfyngedig i gyllidebau presennol i ad-drefnu adnoddau o wasanaethau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r holl Amcanion Gwella. Cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Gwella drafft ym mis Mawrth 2012, ac mae wrthi'n mabwysiadu'r Cynllun yn ffurfiol yn dilyn cyfnod ymgynghori â chynghorwyr, yn arbennig y rheiny sydd yn aelodau newydd.

Yn y cyfamser, mae gwasanaethau'n parhau i fynd i'r afael â'r amcanion eang eu cwmpas a'r camau gweithredu cysylltiedig a bennwyd yn 2011-12, y maent oll yn berthnasol i'r Cyngor o hyd. Byddaf yn darparu llythyr arall erbyn diwedd Tachwedd 2012 a fydd yn asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur.

## Ar sail gwaith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru:

## Credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y rhan fwyaf o feysydd ar gyfer gwella a nodwyd mewn llythyrau ac adroddiadau archwilio blaenorol.
- Mae trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus.
- Mae dull y Cyngor o reoli gwybodaeth wedi cefnogi gwelliant dros y tair blynedd diwethaf, ond mae angen diwygio'r trefniadau hyn i sicrhau y byddant yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn effeithiol o ran rheoli'r risgiau a gyflwynir gan wybodaeth.
- Dylai trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-daliadau Tai a Threth Gyngor sicrhau bod hawliadau yn cael eu talu ar amser i'r bobl sydd eu hangen a bod y trefniadau canolbwyntio ar gwsmeriaid ar waith i sicrhau mynediad da i'r gwasanaeth.

- Fodd bynnag, er bod gwelliannau eisoes ar waith, mae'r modd anghyson y caiff prosesau contractio eu gweithredu yn tanseilio hyder yng ngwerth am arian gwariant trydydd parti'r Cyngor.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol yn y rhan fwyaf o feysydd ar gyfer gwella a nodwyd mewn llythyrau ac adroddiadau archwilio blaenorol

Rwyf wedi nodi o'r blaen nifer o gynigion ar gyfer gwella a hefyd wedi nodi rhai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn isod ac yn Atodiad 1:

- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd boddhaol o ran sicrhau bod cyfrifoldeb am gywirdeb a chadernid data ar berfformiad wedi'i neilltuo'n glir o fewn gwasanaethau a bod staff y mae eu gwaith yn ymwneud â chynhyrchu data yn llwyr ymwybodol o sut y dylid cadw cofnodion. Yn 2010-11 gwnaethom amodi neu ddiwygio saith o'r 41 o ddangosyddion perfformiad a archwiliwyd gennym. Yn 2011-12 dim ond un o'r 11 o ddangosyddion perfformiad a archwiliwyd gennym oedd wedi'i amodi. Bydd gwasanaeth archwilio mewnol y Cyngor ei hun yn cyflawni gwaith pellach i gadarnhau bod samplau o ddangosyddion perfformiad yn gywir. Bydd y gwaith hwn yn ategu ein gwaith mewn modd gwerthfawr, ac yn rhoi mwy o sicrwydd i'r Cyngor bod ei ddata ar berfformiad yn gadarn.
- Fel rhan o'i gylch gwella ei hun, mae'r Cyngor wedi dechrau ystyried yr awgrymiadau ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hadolygiad diweddar o ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog yn un o flaenoriaethau allweddol Cynllun Corfforaethol 2008-12 a bydd sefydlu Rhaglen Cwsmeriaid, yn ôl pob tebyg, yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2012-17. Bydd y Rhaglen yn dwyn ynghyd holl elfennau gwaith gwella gwasanaeth cwsmeriaid o dan un Bwrdd a fydd â'r nod o sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud ar brosiectau a thasgau mewn modd amserol a bod cysylltiadau rhwng y prosiectau a thasgau yn cael eu cynnal.
- Er bod y Cyngor yn gwella ei broses cynllunio ariannol, drwy fabwysiadu dull arloesol o nodi arbedion, ni wnaed unrhyw gynnydd o ran alinio trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor yn fwy penodol â'r uchelgeisiau sy'n deillio o'i Gynllun Corfforaethol newydd. Er bod y Cyngor wedi cydnabod yn flaenorol werth posibl gwaith alinio o'r fath, ac wedi dechrau casglu'r wybodaeth angenrheidiol, ni pharatowyd unrhyw gynllun o'r fath eto ac nid oes gan y Cyngor amserlen na chynllun gweithredu penodol ar gyfer cwblhau un. Heb Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gadarn, mae'n bosibl na fydd y Cyngor yn gallu ariannu'r blaenoriaethau a nodir ganddo yn ei Gynllun Corfforaethol newydd.

- Mae'r Cyngor wedi cynyddu cyfran y staff a gafodd adolygiad datblygu perfformiad. Yn 2011-12 cafodd ychydig dros 70 y cant o staff adolygiad o gymharu â 65 y cant yn 2010-11. Er hyn, gwelwyd gostyngiad mewn rhai meysydd gwasanaeth yn nifer y bobl a gafodd adolygiad, yn arbennig mewn Gwasanaethau Rheoleiddio lle cafodd dim ond un o bob pedwar aelod o staff arfarniad yn 2011-12. Mae tîm Adnoddau Dynol y Cyngor bellach yn targedu gweithgarwch mewn gwasanaethau lle mae nifer y bobl sy'n cael adolygiad yn is er mwyn helpu gwasanaethau i ddeall gwerth arfarniadau staff, a thrwy hynny, gynyddu cyfran y staff sy'n cael adolygiad.

## Mae trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus

Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi sefydlu sylfeini technoleg a threfniadau llywodraethu cadarn. Mae'n deall yr hyn y mae angen iddo ei wneud i sicrhau defnydd cynaliadwy ac effeithiol o dechnoleg a sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac mae'n dechrau defnyddio technoleg i weddnewid y gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Mae'r trefniadau yn gadarn, ond gellid gwella trefniadau ariannu ymhellach i leihau cyfanswm cost perchenogaeth technoleg bwrdd gwaith.
- Mae perfformiad yn gadarn ac yn gwella, ond mae lle i wella'r trefniadau cyfryngau mynediad i gwsmeriaid drwy ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad.

## Mae dull y Cyngor o reoli gwybodaeth wedi cefnogi gwelliant dros y tair blynedd diwethaf, ond mae angen diwygio'r trefniadau hyn i sicrhau y byddant yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn effeithiol o ran rheoli'r risgiau a gyflwynir gan wybodaeth

Mae rhai gwendidau yn nhrefniadau rheoli gwybodaeth y Cyngor, yn cynnwys yr angen i greu strategaeth gwybodaeth sy'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol, ond mae'r rhan fwyaf o'r agweddau yn dderbyniol gydag arwyddion o wella. Mae perfformiad y Cyngor yn gadarn ar y cyfan ond mae angen diwygio trefniadau, fel rheoli gwybodaeth electronig cylch oes gyfan er mwyn sicrhau y byddant yn parhau i fod yn addas at y diben.

## Dylai trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu budd-daliadau Tai a Threth Gyngor sicrhau bod hawliadau'n cael eu talu ar amser i'r bobl sydd eu hangen a bod y trefniadau canolbwyntio ar gwsmeriaid ar waith i sicrhau mynediad da i'r gwasanaeth

Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- Dylai trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu hawliadau sicrhau bod pobl yn cael eu budd-daliadau mewn modd amserol.
- Dylai'r trefniadau diogelwch sydd ar waith gan y Cyngor sicrhau bod y budd-dal cywir yn cael ei dalu i'r bobl gywir.
- Dylai trefniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu hawliadau sicrhau bod pobl yn cael eu budd-daliadau mewn modd amserol.
- Mae'r Cyngor yn cyfrannu tua £0.5 miliwn tuag at gost darparu'r gwasanaeth, un o'r cyfraniadau isaf yng Nghymru, ac mae cyfanswm y gost fesul hawliad yn is na chyfartaledd Cymru.

## Er bod gwelliannau eisoes yn mynd rhagddynt, mae'r modd anghyson y caiff prosesau contractio eu cymhwyso yn tanseilio hyder yng ngwerth am arian gwariant trydydd parti'r Cyngor

Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- Gwariwyd gormod ar rai prosiectau cyfalaf mawr, fel £1.3 miliwn ar adeiladu ffordd a phont rheilffordd newydd ym Maesdu. Nid oedd y cynlluniau amlinellol ar gyfer y contract yn cynnwys rhai costau rhagweladwy a chododd problemau gweithredol pellach ar y cam adeiladu. Awgryma hyn fod cyllidebau a chynlluniau wedi'u hadolygu a'u monitro'n annigonol drwy gam datblygu'r prosiect. Cytunodd y Cyngor ar y contract ar gyfer y cyngor ar ddylunio yn seiliedig ar yr amser a weithiwyd gan y peirianwyr, yn hytrach na phris sefydlog am y contract.
- Mae'r Cyngor yn perfformio'n anghyson. Caiff rhai contractau eu cymhwyso'n gywir ac mae rhai enghreifftiau o arferion da (fel prosiect diweddar Parc Eirias) ond mae angen gwella llawer o agweddau ar y broses gontractio, yn cynnwys y ffordd y caiff gweithdrefnau eu cymhwyso mewn llawer o wasanaethau'r Cyngor.
- Mae angen gwella i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau tendro a gofynion cyfreithiol y Cyngor ac i sicrhau bod contractau mawr yn cael eu rheoli'n well. Mae'r Cyngor ei hun eisoes wedi cymryd camau i wella rhai o'r prosesau hyn, yn cynnwys sefydlu fforwm prosiect a rhaglen newydd i reolwyr, cyflwyno hyfforddiant rheoli sy'n canolbwyntio ar sicrhau buddiannau o brosesau caffael allanol, trefniadau rheoli llymach o'r brig ynglŷn â chydymffurfiaeth, a chyfres o archwiliadau mewnol mewn meysydd risg.
- Mae gan y Cyngor gryn dipyn o waith i'w wneud o hyd cyn y gall fod yn hyderus bod yr holl wariant trydydd parti yn cael ei gaffael, ei reoli a'i fonitro yn y ffordd fwyaf darbodus, effeithlon ac effeithiol.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Er bod ein hadroddiadau i'r Cyngor ar Gontractio a Chaffael, Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn cynnwys nifer o gynigion ar gyfer gwella, nid wyf yn gwneud unrhyw gynigion pellach yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd y Tîm Asesu Gwelliannau yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflwyno fy ngwaith asesu. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Huw Lloyd Jones – Rheolwr

Gwilym Bury – Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod cyfrifoldeb am gywirdeb a chadernid data ar berfformiad wedi'i neilltuo'n glir o fewn gwasanaethau a bod staff y mae eu gwaith yn ymwneud â chynhyrchu data yn llwyr ymwybodol o sut y dylid cadw cofnodion. | Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd boddhaol o ran sicrhau bod cyfrifoldeb am gywirdeb a chadernid data ar berfformiad wedi'i neilltuo'n glir o fewn gwasanaethau a bod staff y mae eu gwaith yn ymwneud â chynhyrchu data yn llwyr ymwybodol o sut y dylid cadw cofnodion. Yn 2010-11 gwnaethom amodi neu ddiwygio saith o'r 41 o ddangosyddion perfformiad a archwiliwyd gennym. Yn 2011-12 dim ond un o'r 11 o ddangosyddion perfformiad a archwiliwyd gennym oedd wedi'i amodi. Bydd gwasanaeth archwilio mewnol y Cyngor ei hun yn cyflawni gwaith pellach i gadarnhau bod samplau o ddangosyddion perfformiad yn gywir. Bydd y gwaith hwn yn ategu ein gwaith mewn modd gwerthfawr, ac yn rhoi mwy o sicrwydd i'r Cyngor bod ei ddata ar berfformiad yn gadarn. |
| C2 | Dylai'r Cyngor, fel rhan o'i gylch gwella ei hun, ystyried yr awgrymiadau ar gyfer gwella a nodir yn ein hadolygiad o ymgysylltu â'r cyhoedd. | Fel rhan o'i gylch gwella ei hun, mae'r Cyngor wedi dechrau ystyried yr awgrymiadau ar gyfer gwella a nodir yn ein hadolygiad diweddar o ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog yn un o flaenoriaethau allweddol Cynllun Corfforaethol 2008-12 a bydd sefydlu Rhaglen Cwsmeriaid, yn ôl pob tebyg, yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-17. Bydd y Rhaglen yn dwyn ynghyd holl elfennau gwaith gwella gwasanaeth cwsmeriaid o dan un Bwrdd a fydd â'r nod o sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud ar brosiectau a thasgau mewn modd amserol a bod cysylltiadau rhwng y prosiectau a thasgau yn cael eu cynnal. |

| Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012 | | Cynnydd |
|---|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod strategaeth ariannol tymor canolig yn ategu ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-17. | Er bod y Cyngor yn gwella ei broses cynllunio ariannol, drwy fabwysiadu dull arloesol o nodi arbedion, ni wnaed unrhyw gynnydd o ran alinio trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor yn fwy penodol â'r uchelgeisiau sy'n deillio o'i Gynllun Corfforaethol newydd. Er bod y Cyngor wedi cydnabod yn flaenorol werth posibl gwaith alinio o'r fath, ac wedi dechrau casglu'r wybodaeth angenrheidiol ni pharatowyd unrhyw gynllun o'r fath eto ac nid oes gan y Cyngor amserlen na chynllun gweithredu penodol ar gyfer cwblhau un. Heb Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gadarn, mae'n bosibl na fydd y Cyngor yn gallu ariannu'r blaenoriaethau a nodwyd ganddo yn ei Gynllun Corfforaethol newydd. |
| C2 | Dylai'r Cyngor gynyddu yn sylweddol gyfran y staff sy'n cwblhau'r broses arfarnu perfformiad flynyddol. | Mae'r Cyngor wedi cynyddu cyfran y staff a gafodd adolygiad datblygu perfformiad. Yn 2011-12 cafodd ychydig dros 70 y cant o staff adolygiad o gymharu â 65 y cant yn 2010-11. Er hyn, gwelwyd gostyngiad mewn rhai meysydd gwasanaeth yn nifer y bobl a gafodd adolygiad, yn arbennig mewn Gwasanaethau Rheoleiddio lle cafodd dim ond un o bob pedwar aelod o staff arfarniad yn 2011-12. Mae tîm Adnoddau Dynol y Cyngor bellach yn targedu gweithgarwch mewn gwasanaethau lle mae nifer y bobl sy'n cael adolygiad yn is er mwyn helpu gwasanaethau i ddeall gwerth arfarniadau staff, a thrwy hynny, gynyddu cyfran y staff sy'n cael adolygiad. |